**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

31 Mawrth 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mawrth, gan gynnwys adroddiad diweddaraf y Pwyllgor ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS).

Rwyf wedi nodi'r cwestiynau a godwyd gennych yn eich gohebiaeth ac yn ymateb iddynt isod:

**Dyfarniad yr Uchel Lys ynghylch hawliau dinasyddion â statws preswylydd cyn-sefydlog**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cadarnhad diweddar na fydd y Swyddfa Gartref yn parhau â'i hapêl yn erbyn dyfarniad yr Uchel Lys ynghylch hawliau dinasyddion â statws preswylydd cyn-sefydlog o dan yr EUSS.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig am eglurhad pellach ar yr hyn y mae dyfarniad yr Uchel Lys yn ei olygu i'r rhai â statws preswylydd cyn-sefydlog, ac i wneud hynny cyn gynted ag y bo modd. Tan hynny, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi gwybod i ni y bydd yn parhau i annog dinasyddion â statws preswylydd cyn-sefydlog i ymgeisio am statws preswylydd sefydlog pan fônt yn gymwys i wneud hynny, er mwyn sicrhau eu bod yn cael caniatâd amhenodol i aros. Rydym wedi galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnwys pob llywodraeth ddatganoledig mewn unrhyw benderfyniadau neu ddatblygiadau polisi pellach yn y maes hwn.

**Gwasanaethau Cynghori ar yr EUSS a ariennir gan Lywodraeth Cymru**

Ers 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £2.7miliwn i ariannu Gwasanaethau Cynghori ar Fewnfudo mewn perthynas â'r EUSS yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn wedi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sicrhau bod dinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir wedi gallu cael mynediad at gymorth am ddim i'w helpu gyda phroses ymgeisio’r EUSS a sicrhau eu statws, eu hawliau a’u hawlogaethau. Mae'r Gwasanaethau Cynghori ar yr EUSS a ddarperir gan Gyngor ar Bopeth, Settled a Newfields Law wedi bod yn amhrisiadwy i ddinasyddion o’r UE yng Nghymru ac rwy'n falch ein bod wedi gallu parhau i estyn y cyllid am bron i ddwy flynedd heibio'r dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer ceisiadau.

Yn ddiweddar, daeth sylwadau i law Llywodraeth Cymru gan Ddirprwyaeth yr Undeb Ewropeaidd i'r Deyrnas Unedig, a chan o aelodau o Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd a oedd ar ymweliad, yn mynegi diolchgarwch am y gefnogaeth hael a ddarparwyd i alluogi dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd i barhau i fyw yng Nghymru.


Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 23 Mawrth i roi diweddariad ar Wasanaethau Cynghori Llywodraeth Cymru ar yr EUSS ar ôl mis Mawrth 2023 ac rwy'n falch o gadarnhau y bydd £200k yn ychwanegol yn cael ei roi i Gyngor ar Bopeth a Settled ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf fel y gallant barhau i gefnogi dinasyddion yr UE yng Nghymru.

**Nifer y ceisiadau EUSS gan Wcreiniaid sy’n preswylio yng Nghymru**

Nid yw Llywodraeth y DU yn cyhoeddi data lefel ddatganoledig ar nifer y gwladolion o Wcráin sydd wedi gwneud cais i'r UESS yn Ystadegau Chwarterol y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Er hynny, yn dilyn cais am yr wybodaeth hon gan Lywodraeth Cymru, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cadarnhau bod 80 o geisiadau wedi bod i'r UESS hyd at 23 Rhagfyr gan Wcrainiaid a chanddynt gyfeiriad yng Nghymru.

Mae'r ystadegau diweddaraf ar gyfer Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin yn dangos bod 8,832 o fisas wedi'u rhoi hyd at 21 Mawrth 2023. Nid ydym yn derbyn data datganoledig ar gyfer y Cynllun Teuluoedd o Wcráin na Chynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin. Fodd bynnag, mae pob un o'r tri chynllun hyn yn rhoi tair blynedd o ganiatâd i aros gyda mynediad at waith ac arian cyhoeddus.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn yn rhoi manylu ar ac yn egluro’r pwyntiau a godwyd gennych ac yn rhoi tawelwch meddwl i aelodau’r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau i gynnal ei haddewid i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir ac i'w cefnogi i setlo yma yng Nghymru.



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice